Ysgol Gynradd
**Gwaelod y Garth**
Primary School

# POLISI GWISG YSGOL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Polisi / *Policy Date*:** | Tachwedd / *November* 2025 |
| **Cyfrifoldebau / *Responsibilities*:** | Pennaeth, Llywodraethwyr, Holl staff<br>*Headteacher, Governors, All Staff* |

**Cyflwyniad**
Polisi Ysgol Gwaelod y Garth yw bod pob plentyn yn gwisgo gwisg ysgol wrth fynychu'r ysgol ac wrth fynychu digwyddiadau ble mae disgyblion yn cynrychioli'r ysgol y tu fewn ac allan i oriau arferol yr ysgol.

**Nodau ac amcanion**
Seilir y polisi hwn ar y gred fod gwisg ysgol yn:

- hybu ymdeimlad o falchder o'n hysgol;
- creu ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned yr ysgol a'r gymuned ehangach;
- ymarferol, taclus a smart;
- adnabod y disgyblion a'r ysgol;
- helpu pob disgybl deimlo'n gyfartal o ran ymddangosiad;
- ystyried dillad addas ar gyfer ysgol sydd hefyd yn werth da am arian;
- ystyried materion iechyd a diogelwch.

Mae'r polisi gwisg ysgol yn rhan greiddiol o ymroddiad yr ysgol tuag at gyfle cyfartal a chynhwysiant. Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn credu fod gwisg ysgol yn galluogi holl ddisgyblion yr ysgol i rannu ymdeimlad o hunaniaeth gan ddathlu nodweddion sydd yn gyffredin i bawb, gan hefyd barchu amrywiaeth. Yn ogystal â hyn credwn fod creu amgylchedd dysgu diogel a disgybledig yn bwysig mewn unrhyw ysgol sydd yn anelu at y cyflawniad uchaf. Bydd gweithredu'r polisi gwisg ysgol hwn yn helpu i gynnal safonau academaidd uchel trwy leihau ymddygiad aflonyddgar a hyrwyddo parch disgyblion tuag at eu hunan ac eraill, gan adeiladu ethos gymunedol. Rydym hefyd yn teimlo bod gwisgo gwisg ysgol yn helpu lleihau effaith gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol.

**Y Wisg Ysgol**
Disgwylir i bob disgybl, o'r Feithrin i Flwyddyn 6, wisgo gwisg swyddogol yr ysgol yn ddyddiol.

**YC Sports** yw cyflenwyr swyddogol y wisg ysgol: *YC Sports,* 5 Penlline Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AA. *029 2069 3653.*

Mae croeso i **bob** disgybl wisgo pa bynnag gyfuniad o eitemau addas o'r rhestr islaw. Er eglurder, mae croeso i bob disgybl wisgo trowsus, felly hefyd i unrhyw ddisgybl wisgo sgert neu ffrog.

**Gaeaf**

- Siwmper neu gardigan: glas tywyll (gyda bathodyn yr ysgol*)
- Crys polo: glas golau (gyda bathodyn yr ysgol*)
- Sgert, trowsus neu siorts: llwyd tywyll (gall plant Meithrin wisgo trowsus ymarfer corff plaen llwyd tywyll)
- Esgidiau du neu esgidiau hyfforddi (trainers) du
- Sanau: du neu llwyd (pan yn cynrychioli'r ysgol)

**Haf**

- Siwmper neu gardigan: glas tywyll (gyda bathodyn yr ysgol*)
- Crys polo: glas golau (gyda bathodyn yr ysgol*)
- Ffrog las a gwyn (streipïog neu gingham)
- Sgert, trowsus neu siorts: llwyd tywyll
- Esgidiau du neu sandalau du call neu esgidiau hyfforddi (trainers) du
- Sanau: gwyn, du neu llwyd

**Gwisg Addysg Gorfforol (Derbyn – Blwyddyn 6)**

Dylai plant wisgo wisg Addysg Gorfforol yr ysgol ar ddiwrnodau pan fo ganddynt wersi Addysg Gorfforol (1 diwrnod yr wythnos), a dim ond ar y diwrnodau hynny. Bydd pob dosbarth yn cael gwybod ar ddechrau'r flwyddyn pa ddiwrnod mae eu gwersi addysg gorfforol.

Y wisg Addysg Gorfforol yw:

- Crys-T Addysg Gorff swyddogol yr ysgol, neu crys T plaen (heb logo) lliw gwyn neu glas golau
- Siwmper neu gardigan: glas tywyll (gyda bathodyn yr ysgol*)
- Trowsus neu siorts hyfforddi: du neu llwyd tywyll heb logo amlwg
- Sanau: gwyn, du neu llwyd
- Esgidiau: esgidiau unrhyw liw addas at ymarfer corff

**Cynrychioli'r Ysgol**

Bydd achlysuron lle y bydd gofyn i blant fynychu ymweliadau penodol neu i gynrychioli'r ysgol ac y bydd disgwyliadau penodol ynghylch disgwyliadau gwisg ysgol. Byddwn yn cyfathrebu â theuluoedd ymlaen llaw pan fo angen. Gall y rhain gynnwys:

- Siwmper neu gardigan: glas tywyll (gyda bathodyn yr ysgol)
- Crys polo: glas golau (gyda bathodyn yr ysgol)
- Ffrog las a gwyn (streipïog neu gingham)
- Sgert, trowsus neu siorts: llwyd tywyll
- Esgidiau: du (dim sandalau)
- Sanau: du neu llwyd

**Gwisg Ysgol heb logo'r ysgol**

Deallwn ei fod yn gostus i brynu gwisg swyddogol yr ysgol i'w wisgo pob dydd yn yr ysgol ac felly nodwn ei fod hefyd yn gwbl dderbyniol gwisgo siwmperi, cardiganau, crysau polo a chrysau-T addysg gorfforol sydd heb logo'r ysgol. Fodd bynnag, disgwyliwn fod:

- <u>Pob</u> siwmper, cardigan neu grys-polo yn cyfateb â lliwiau arferol glas tywyll yr ysgol.
- <u>Pob</u> crys-T a wisgir ar ddiwrnodau addysg gorfforol heb logo amlwg ac yn las golau, glas tywyll neu gwyn.
- <u>Pob</u> siwmper, cardigan, crys-T neu grys-polo a brynir heb logo'r ysgol yn blaen ac heb logos amlwg. Mae hyn yn unol â'n ymrwymiad i gydraddoldeb a chynhwysiant.

- Gan <u>bob</u> plentyn mynediad at un set o wisg ysgol swyddogol (h.y. crys-polo a chardigan neu siwmper sydd â logo swyddogol yr ysgol) i'w defnyddio ar achlysuron lle'u bod yn cynrychioli'r ysgol.

Rydym yn annog ailgylchu gwisg ysgol i ganiatáu mynediad i bawb a hefyd i gefnogi'r amgylchedd. Ein nod yw cadw cyflenwad o eitemau gwisg ysgol wedi'u hailgylchu yn yr ysgol y gall deuluoedd eu prynu am gost bychan neu eu cymryd am ddim, yn ôl yr angen.

**Gemwaith**
Ar sail iechyd a diogelwch, nid ydym yn caniatáu i blant wisgo gemwaith yn ein hysgol. Yr eithriadau i'r rheol hon yw:

- **stydiau** clustdlysau mewn clustiau wedi'u tyllu,
- gwrthrychau o arwyddocâd crefyddol, neu
- gwrthrychau sy'n angenrheidiol am resymau meddygol.

Gofynnwn i'r plant i dynnu unrhyw wrthrychau, a eithrio stydiau, yn ystod Addysg Gorfforol a gemau. Pe bai disgyblion yn gwisgo clustdlysau nad sydd yn stydiau, gofynnir iddyn nhw eu dynnu er mwyn sicrhau diogelwch. Bydd disgwyl i'r disgyblion allu gwneud hynny'n annibynnol.

Gall disgyblion wisgo oriawr i'r ysgol os ydynt yn dymuno.

**Gwallt**
Dylai gwallt fod yn lliw a steil naturiol. Ni fyddwn yn gwahaniaethu ar sail steil na gwead gwallt, e.e. gwallt Affro. Er mwyn diogelwch, taclusrwydd a glendid (ac osgoi dal llau pen!) byddwn yn annog pob disgybl sydd â gwallt hir i'w glymu'n ôl yn ddyddiol.

**Esgidiau**
Dymuniad yr ysgol yw bod pob plentyn yn tyfu i fod yn oedolyn iach. Er mwyn hybu iechyd corfforol a symudedd, ni chaniateir esgidiau sy'n anaddas i'w gwisgo yn ddyddiol i'r ysgol. Ni chaniateir y canlynol: esgidiau 'slip-on', 'fflip fflops', 'crocs', sandalau agored neu esgidiau â gwadnau uchel neu bren.

Er mwyn hyrwyddo ac annog ymarfer corff a symud mor aml ac mor rhwydd ag sydd yn bosib er lles datblygiad corfforol, anogwn disgyblion i wisgo esgidiau ymarfer corff (trainers) i'r ysgol yn rheolaidd.

**Rôl Rhieni a Gwarcheidwaid**
Gofynnwn am gefnogaeth pob rhiant a gwarcheidwad o sicrhau bod disgyblion yn dod i'r ysgol yn y wisg ysgol cywir ac mewn dillad addas. Credwn fod cyfrifoldeb gan ein rhieni a gwarcheidwaid i ddanfon eu plant at yr ysgol wedi'u gwisgo'n addas ac yn barod i wynebu gweithgareddau'r dydd mewn dillad glân, taclus ac addas. Gofynnwn i rieni a gwarcheidwaid gysylltu â staff yr ysgol i drafod unrhyw rwystrau i gyflenwi gwisg ysgol neu ddillad addas

**Rôl y Pennaeth a Staff yr Ysgol**
Disgwylir i'r Pennaeth a'r holl staff i weithredu'r polisi hwn. Mae gan y Pennaeth a staff yr ysgol yr hawl i benderfynu ar yr hyn sydd yn dderbyniol ac yn annerbyniol i'w wisgo i ddod i'r ysgol o fewn fframwaith y polisi hwn. Yn ogstal, mae gan y Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth ac aelodau'r Uwch Dîm Arwain (yn absenoldeb y Pennaeth neu'r Dirprwy) y cyfrifoldeb i atal plentyn rhag fynd allan i chwarae neu cymryd rhan mewn gweithgareddau os nad ydynt yn gwisgo dillad neu esgidiau addas. Diogelwch a lles y disgybl sydd yn arwain y penderfyniad hwn.

Disgwylir i'r Pennaeth i dynnu sylw darpar rieni at y polisi gwisg ysgol naill ai trwy rannu prosbectws yr ysgol neu drwy drafod y polisi mewn cyfarfodydd croeso.

Disgwylir i'r Pennaeth siarad ag unrhyw riant nad sy'n cydymffurfio â'r polisi. Os nad oes newid yn y sefyllfa, disgwylir i'r Pennaeth nodi hyn gyda'r Corff Llywodraethol.

**Rôl y Llywodraethwyr**
Mae'r Corff Llywodraethol yr ysgol yn cefnogi'r Pennaeth wrth weithredu'r polisi hwn. Ystyrir pob sylw gan rieni a disgyblion am y polisi mewn modd sensitif a theg. Mae cyfrifoldeb gan y Llywodraethwyr i sicrhau bod y wisg ysgol ddewisedig yn cwrdd â rheoliadau cyfleoedd cyfartal ac yn cydymffurfio â'r canllawiau ar wisg ysgol a gyflwynir o dro i dro gan Lywodraeth Cymru neu awdurdod priodol arall. Os oes rhesymau crefyddol, meddygol neu cydraddoldeb yn gofyn i blentyn wisgo mewn modd arbennig, yna trafodir hyn gyda'r rhieni mewn dull sensitif a synhwyrol.

**Cytunwyd y Polisi gan:**

HSharkey.

Helen Sharkey (Penneth)
Dyddiad: 27.11.25

Non Gwilym

Non Gwilym (Cadeirydd y Llywodraethwyr)
Dyddiad: 27.11.25

**Ysgol Gynradd**
**Gwaelod y Garth**
**Primary School**

# SCHOOL UNIFORM POLICY

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Polisi / *Policy Date*:** | Tachwedd / *November* 2025 |
| **Cyfrifoldebau / *Responsibilities*:** | Pennaeth, Llywodraethwyr, Holl staff<br>*Headteacher, Governors, All Staff* |

**Introduction**
It is the policy of Ysgol Gwaelod y Garth that all children wear a school uniform when attending school and when attending events where pupils represent the school in and out of normal school hours.

**Aims and objectives**
This policy is based on the belief that school uniform:

- promotes a sense of pride in our school;
- creates a sense of belonging to the school and wider community;
- is practical, tidy, and smart;
- identifies the pupils and the school;
- helping all pupils feel equal in appearance;
- considers suitable clothes for school that are also value for money;
- considers health and safety issues.

The school uniform policy is a core part of the school's commitment to equal opportunity and inclusion. The school's Governing Body believes that school uniform enables all pupils in the school to share a sense of identity while celebrating qualities that are common to all, while also respecting diversity. In addition to this, we believe that creating a safe and disciplined learning environment is important in any school that aims for the highest achievement. The implementation of this school uniform policy will help maintain high academic standards by reducing disruptive behaviour and promoting pupils' respect for themselves and others, thus building a community ethos. We also feel that wearing a school uniform helps reduce the impact of socio-economic differences.

**<u>The School Uniform</u>**
All pupils, from Nursery to Year 6, are expected to wear the school's official uniform on a daily basis.

**YC Sports** are the official suppliers of the school uniform: *YC Sports,* 5 Penlline Rd, Whitchurch, Cardiff CF14 2AA. *029 2069 3653.*

**All** pupils are welcome to wear whatever combination of suitable items from the list below. For clarity, all pupils are welcome to wear trousers, as are all pupils welcome to wear a skirt or dress.

**Winter**

- Sweater or cardigan: dark blue (with the school badge*)
- Polo shirt: light blue (with the school badge*)
- Skirt, trousers or shorts: dark grey (nursery children can wear dark grey plain exercise trousers)
- Black shoes or black trainers
- Socks: black or grey (when representing the school)

**Summer**
- Sweater or cardigan: dark blue (with the school badge*)
- Polo shirt: light blue (with the school badge*)
- Blue and white dress (striped or gingham)
- Skirt, trousers or shorts: dark grey
- Black shoes, trainers or sandals
- Socks: white, black or grey

**Physical Education (PE) Uniform (Reception – Year 6)**
Children should wear the school's PE uniform on days when they have PE lessons (1 day a week), and only on those days. Each class will be informed at the beginning of the year what day their PE lessons take place.

The PE uniform is:
- The school's official PE T-shirt, or plain T-shirt (without logo) in white or light blue
- Sweater or cardigan: dark blue (with the school badge*)
- Training trousers or shorts: black or dark gray with no obvious logo
- Socks: white, black or grey
- Shoes: shoes of any color suitable for exercise

**Representing the School**
There will be occasions where children will be required to attend certain visits or to represent the school and there will be certain expectations regarding school uniform expectations. We will communicate with families in advance when necessary. These may include:
- Sweater or cardigan: dark blue (with the school badge)
- Polo shirt: light blue (with the school badge)
- Blue and white dress (striped or gingham)
- Skirt, trousers or shorts: dark grey
- Shoes: black (no sandals)
- Socks: black or grey

**School uniform without school logo**
We understand that it is costly to purchase the school's official uniform to wear every day at school and therefore note that it is also perfectly acceptable to wear sweaters, cardigans, polo shirts and PE T-shirts that do not have the school logo. However, we expect that:
- <u>Each</u> sweater, cardigan or polo shirt matches the school's usual dark blue colors.
- <u>All</u> T-shirts worn on PE days without a prominent logo and are light blue, dark blue or white.
- <u>All</u> sweaters, cardigans, T-shirts or polo shirts purchased without the school logo on the front and without obvious logos. This is in line with our commitment to equality and inclusion.

- Each child has access to one set of official school uniforms (i.e. a polo shirt and cardigan or jumper bearing the school's official logo) to use on occasions where they represent the school.

We actively encourage the recycling of school uniform to allow access for all and also to support the environment. We aim to keep a supply of pre-loved school uniform items at school which families can purchase for a small cost or take for free, as necessary.

**Jewellery**
On health and safety grounds, we do not allow children to wear jewellery in our school. The exceptions to this rule are:

- **studs** earrings in pierced ears,
- items of religious significance, or
- items necessary for medical reasons.

We ask the children to remove any items other than stud earrings during PE and games activities. If pupils are wearing non-stud earrings, they will be asked to remove them for safety reasons. Pupils will be expected to be able to do so independently.

Pupils can wear a watch to school if they wish.

**Hair**
All hair styles and colour should be natural. We will not discriminate on the basis of style or texture of hair, e.g. Afro hair. For safety, tidiness and cleanliness (and to avoid head lice!) we ask that all long hair is tied back daily.

**Shoes**
The school's desire is for every child to grow into a healthy adult. To promote physical health and mobility, shoes that are unsuitable for daily wear to school are not allowed. The following are not allowed: slip-on shoes, flip flops, crocs, open sandals or high-soled or wooden-soled shoes.

In order to promote and encourage exercise and movement as often and as easily as possible for the benefit of physical development, we encourage pupils to wear exercise shoes (trainers) to school regularly.

**The Role of Parents and Guardians**
We ask for the support of all parents and guardians in ensuring that pupils come to school in the correct unform and appropriate clothing. We believe that there is a responsibility on our parents and guardians to send their children to school suitably dressed and ready to face the day's activities in clean, tidy and suitable clothing. We ask that parents and guardians contact school staff to discuss any barriers to supplying school uniform or suitable clothing.


**The Role of the Headteacher and School Staff**
The Headteacher and all staff are expected to implement this policy. The Headteacher and school staff have the right to decide what is acceptable and unacceptable to wear to school within the framework of this policy. In addition, the Headteacher, Deputy Headteacher and members of the Senior Leadership Team (in the absence of the Headteacher or Deputy) have the responsibility to prevent a child from going out to play or taking part in activities if they are not wearing suitable clothing or footwear. The safety and well-being of the pupil drives this decision.

The Headteacher is expected to draw the attention of prospective parents' to this school uniform policy either by sharing the school or by discussing the policy at welcome meetings.

The Headteacher is expected to speak to any parent who is not complying with the policy. If there is no change in the situation, the Headteacher is expected to report this to the Governing Body.

**Role of Governors**
The school's Governing Body supports the Headteacher in implementing this policy. All comments from parents and pupils about the policy will be considered in a sensitive and fair manner. The Governors have a responsibility to ensure that the school uniform chosen meets equal opportunities regulations and complies with the guidance on school uniform issued from time to time by the Welsh Government or other appropriate authority. If there are religious, medical or equality reasons that require a child to dress in a particular manner, this is discussed with the parents in a sensitive and sensible manner.

**The Policy was agreed by:**



Helen Sharkey (Head Teacher)
Date: 27.11.25



Non Gwilym (Chair of Governors)
Date: 27.11.25